# PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

Dydd Gwener, 16 Hydref 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:**
D.M. Cundy a D. Thomas (Aelod yn Dirprwyo);

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
B. Owen, Swyddog Buddsodiadau Pensiwn.

**Rhith-Gyfarfod: 2.00 yp - 3.00 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Jim Jones. Dymunodd y Cadeirydd wellhad buan i'r Cynghorydd Jones ar ôl iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION - 24AIN MEHEFIN, 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 24 Mehefin, 2020 yn gofnod cywir.**

## 4. ADRODDIAD YNGHYLCH YR ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL 2019-20

Croesawodd y Pwyllgor Jason Garcia o Archwilio Cymru i'r cyfarfod a gyflwynodd yr Adroddiad ynghylch yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed, gan fanylu ar y materion a oedd yn codi o'r archwiliad yr oedd angen eu hadrodd o dan Safon Ryngwladol ar Archwilio 260.

Nodwyd mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed yn olwg gywir a theg ar ei sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2020, a'i hincwm a'i gwariant yn ystod y flwyddyn honno. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod adroddiad archwilio diamod ynghylch y datganiadau ariannol wedi'i gyhoeddi a byddai'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried yr adroddiad terfynol maes o law.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2019–20 (ISA260).**

**5. MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2020 - 30 MEHEFIN 2020**

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol o ran blwyddyn ariannol 2020/21. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol, fel yr oedd ar 30 Mehefin 2020, yn rhagweld tanwariant o £3.2m o ran arian parod. O ran gwariant, roedd effaith net y buddion taladwy a'r trosglwyddiadau allan yn dangos tanwariant o £1.5m. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd o 3% wrth bennu'r gyllideb ar gyfer pensiynwyr, y cynnydd gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn hyd yma oedd 1.5%. Roedd tanwariant o ran treuliau rheolwyr o £420k.

O ran incwm, roedd effaith net cyfraniadau, incwm buddsoddi a throsglwyddiadau i mewn yn dangos cynnydd o £1.3m, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd o £1.5m mewn incwm buddsoddi. Yn gyffredinol, y cyfanswm gwariant oedd £99.1m a chyfanswm incwm amcangyfrifiedig o £102.3m gan arwain at sefyllfa llif arian parod cadarnhaol o £3.2m.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2020.**

**6. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 30 MEHEFIN 2020**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd ar 30 Mehefin, 2020 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £20.9m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Cysoni Arian Parod Cronfa Bensiwn Dyfed.**

**7. ADRODDIAD TORRI AMODAU 2020-2021**

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd gan y Pwyllgor fod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer Rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith. Cafodd Polisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed ei gymeradwyo gan Banel Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mawrth 2016. O dan y polisi, roedd yn ofynnol i achosion o dorri'r gyfraith gael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau os oes achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- na chydymffurfir – neu na chydymffurfiwyd – â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu'r cynllun;
- bod yr anallu i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Nododd y Pwyllgor fod nifer o achosion wedi bod ers y cyfarfod diwethaf lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwr wedi'u derbyn ar amser. Fodd bynnag, nid oedd achos wedi'i gyfeirio at y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi’r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

**8. COFRESTR RISG 2020-2021**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Gofrestr Risg yn ddogfen waith sy'n tynnu sylw at yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Cafodd hyn ei adolygu ac ni chafwyd unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 2 Mawrth 2020. Byddai'r risgiau yn parhau i gael eu hadolygu'n chwarterol, a byddai unrhyw newidiadau yn cael eu dwyn at sylw'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod y gofrestr risg ar gyfer 2020-2021 wedi'i hadolygu i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u hasesu.**

**9. DIWEDDARIAD Y GWEITHREDWR**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) , ynghylch cynnydd a cherrig milltir yr Is-gronfeydd canlynol ynghyd â thaliadau'r gronfa, y diweddaraf o ran lansio'r gronfa a diweddariad corfforaethol ac ymgysylltiad LFS.

- Tranche 3 - Incwm Sefydlog
- Tranche 4 – Marchnadoedd Datblygol.
- Tranche 5 - Marchnadoedd Preifat

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei nodi.**

**10. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**11. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 30 MEHEFIN 2020**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 10 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.**

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 30 Mehefin 2020.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2020.**

## 12. BENTHYCA GWARANNAU

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 10 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a ddarparwyd gan Northern Trust ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ynghylch benthyca gwarannau am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2020 ac argymhellwyd cymeradwyo'r cais am fenthyca gwarannau yng Nghronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad benthyca gwarannau a chymeradwyo'r cais am fenthyca gwarannau yng Nghronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

## 13. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 30 MEHEFIN 2020

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 10 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Mehefin 2020 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Mehefin 2020.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |